**Dyddiad cyhoeddi** Medi 2009

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

National Institute for Health and Clinical Excellence

# Mewnblaniad a addaswyd yn benodol ar gyfer osteoarthritis ar y ben-glin

*Mae 'arweiniad Techlechyd' NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio mewnblaniad a addaswyd yn benodol yn y GIG i drin pobl sydd ag osteoarthritis ar y ben-glin. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth hyd yma am ba mor dda mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio osteoarthritis ar y ben-glin na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau o wybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 5.

**Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 203**

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth ar hyn o bryd sy'n dweud pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw.

Am y rheswm hwn, mae NICE wedi penderfynu y dylid ond defnyddio'r driniaeth hon fel rhan o astudiaeth ymchwil (a elwir hefyd yn dreial clinigol). Dylai'r ymchwil edrych ar ganlyniadau technegol y driniaeth a chofnodi profiadau a barn y cleifion. Dylai'r ymchwil hefyd edrych ar hyd y cyfnod cyn bod angen gosod cymal pen-glin newydd.

## Mewnblaniad a addaswyd yn benodol ar gyfer osteoarthritis ar y ben-glin

*Efallai nad hon fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer osteoarthritis ar y ben-glin. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol am y driniaeth hon yw 'gosod mewnblaniad rhyngosodiadol unadrannol a gynlluniwyd drwy ddelweddu atseiniol magnetig yn unigol mewn osteoarthritis ar y ben-glin'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Mae osteoarthritis yn datblygu pan fo'r cartilag sy'n gorchuddio pen yr esgyrn mewn cymalau yn cael ei dreulio. Mewn arthritis cynnar, mae ochr fewnol ac allanol y cymal yn treulio'n anwastad sy'n arwain at y ben-glin yn crymu, sydd yn ei dro'n gorlwytho'r ochr sydd wedi'i niweidio fel bod y cymal yn mynd yn boenus a llidus.

Yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r osteoarthritis, gellir ei drin â meddyginiaeth i liniaru poen a chwydd, ffysiotherapi neu ymarfer corff, neu bigiadau o corticosteroidau (meddyginiaethau sy'n lleihau chwydd a phoen). Mae'n bosibl y bydd pobl sydd ag osteoarthritis difrifol angen llawdriniaeth i ail-alinio'r ben-glin neu osod rhan newydd o'r ben-glin neu'r ben-glin gyfan.

Yn y driniaeth hon gwahenir arwynebau'r ben-glin sydd wedi'u niweidio a'u treulio gan fewnblaniadau a addaswyd yn benodol sy'n gweithredu

fel gwahanydd ac yn sythu'r ben-glin sydd wedi crymu. Nod y driniaeth yw lleihau poen ac arafu datblygiad osteoarthritis a'r angen am lawdriniaeth i osod pen-glin newydd.

Tynnir sgan delweddu atseiniol magnetig (MRI) o'r ben-glin a'i ddefnyddio i ddylunio'r mewnblaniad yn unigol. Fel arfer gwneir y llawdriniaeth i osod y mewnblaniad â'r claf dan anesthetig cyffredinol a gellir ei wneud fel llawdriniaeth ddydd. Defnyddir cymalsyllu (triniaeth twll clo sy'n defnyddio telesgop bach) i dynnu unrhyw esgyrndyfiannau (canghennau bach o asgwrn). Yna gosodir y mewnblaniad drwy doriad bach wrth ymyl padell y ben-glin.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gall eich meddyg gynnig y driniaeth hon i chi (a elwir hefyd yn dreial clinigol).

Argymhellodd NICE y dylid casglu rhai manylion am bob claf sy’n cael y driniaeth hon yn y DU. Efallai y bydd eich meddyg yn gofyn i chi a ellir defnyddio manylion am eich triniaeth i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am hyn.

## Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw’r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo’n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 2 astudiaeth o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 27 o gleifion ag osteoarthritis cam cynnar i ganolig, a gafodd dynnu esgyrndyfiannau hefyd, cafodd 23 o gleifion ganlyniad llwyddiannus (a gaiff ei ddiffinio fel ail-linio'r ben-glin i fod mewn llinell syth rhwng y clun a'r pigwrn).

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaeth hon, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod llai o boen yn un o ffactorau llwyddiant ynghyd ag a yw unigolyn yn gallu dychwelyd i'r gwaith, perfformio gweithgareddau byw o ddydd i ddydd ac ailafael mewn chwaraeon. Roeddent yn credu bod yr ansicrwydd ynghylch pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio yn debyg i'r ansicrwydd a gysylltir â mewnblaniadau traddodiadol na chaiff eu haddasu'n benodol, sef poen, afleoli neu gam-alinio'r mewnblaniad, a risg uwch o fod angen rhagor o driniaethau. Roedd un cynghorydd arbenigol yn pryderu y gallai llacio'r mewnblaniad olygu rhagor o niwed i'r cymal, a allai olygu bod llawdriniaeth i osod pen-glin newydd yn fwy anodd i'w wneud.

## Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 60 o gleifion, cafodd y mewnblaniad ei afleoli mewn 4 claf. Yn yr astudiaeth o 27 o gleifion ni chafodd y mewnblaniad ei afleoli yn yr un o'r cleifion.

Mewn astudiaeth nas cyhoeddwyd, allan o 84 o gleifion a gafodd osod mewnblaniadau a addaswyd yn bwrpasol, roedd angen triniaethau pellach ar 5%.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod adleoli'r mewnblaniad yn broblem posibl, ynghyd â haint, poen yn parhau a thorthenni gwaed yn ffurfio.

## Rhagor o wybodaeth am osteoarthritis

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar osteoarthritis a'i driniaethau, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk/Guidance/Topic

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'gosod mewnblaniad rhyngosodiadol unadrannol a gynlluniwyd drwy ddelweddu atseiniol magnetig yn unigol mewn osteoarthritis ar y ben-glin'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael ar www.nice.org.uk/HTG203*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8088-8
N2005 1P Sept 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.